



Arweinwyr Gweithgaredd £21,000 pro rata

17.5 awr yr wythnos 3 mlynedd Contract Tymor Penodol, gydag adnewyddiad blynyddol

Lleoliad: Cwm Elan, Powys

Dyddiad Cau: 5pm, 24^{ain} Ionawr 2021

Mae Tir Coed yn recriwtio Arweinydd Gweithgaredd i'w lleoli yng Nghwm Elan, Powys. Mae Tir Coed yn darparu hyfforddiant achrededig, cyfleoedd Dysgu ymarferl, gwirfoddoli a gweithgareddau lles, mewn coetiroedd, i amryw eang o bobl. Mae ein gyfranogwyr yn datblygu hyder a sgiliau drwy gweithgareddau awyr agored er mwyn gwella eu lles a chyrraedd nodau hir dymor ar gyfer addysg, cyflogaeth a gwirfoddol.

Yr Arweinwyr Gweithgaredd yn arwain ar y ddarpariaeth o gyrsiau hyfforddi a sesiynau gweithgaredd safleoedd o amgylch Cwm Elan, gan gynnwys darparu cyrsiau achrededig ac ardystiedig.

Ar gyfer pob uno'r swyddi, byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fantais, yn ogystal â phrofiad blaenorol o ddarparu gweithgareddau Dysgu awyr agored a gwybodaeth o'r ardal leol. Oherwydd natur wledig yr ardal, bydd angen mynediad i gerbyd a ellir cael ei ddefnyddio at bwrpas gwaith. Bydd angen gwiriad DBS trylwyr ar unrhyw un a gynigir y swydd iddynt.

I ymgeisio, anfonwch eich CV a ffurflen gais wedi'i gwblhau erbyn 5pm ar y 24ain Ionawr. Cynhelir cyfweiliadau trwy blatfform ar-lein. Dylid anfon ceisiadau'n electronig i admin@tircoed.org.uk.



RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

- I gynllunio a darparu cyrsiau hyfforddi achrededig 2 x 12 wythnos
- I ddarparu 1 x Wythnos Dilyniant (cwrs 5 diwrnod mewn sgiliau perthnasol i waith penodol)
- I fynychu 2 sioe/digwyddiad y flwyddyn i arddangos gwaith coed irlas neu arddangosfeydd coetir
- I ddarparu diwrnodau gweithgaredd yn y goedwig (o raglen Tir Coed o sesiynau natur, celf, antur a chrefft)
- I gynnal gwaith rheoli coetir paratoadol ar safleoedd Tir Coed I sicrhau bod y safleoedd yn glynu at bolisiau iechyd a diogelwch
- I archebu a chasglu deunydd sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau dysgu a lles Tir Coed
- I gadw lluniaeth y safle'n llawn o stoc ganolig Tir Coed
- I gefnogi'r Cydlynnydd Sirol i chwilio am safleoedd coetir newydd ac i greu cynlluniau rheoli ar eu cyfer.

Hyfforddiant ar gael

Yn gyfrifoldeb i'r Cydlynnydd Sirol a staff rheoli Tir Coed

BUDDION:

- Cynllun pensiwn
- Trefniadau gweithio hyblyg ar gael
- Rhaglen hyfforddiant gan gynnwys mynediad i hyfforddiant goedwigaeth broffesiynol drwy 'Focus on Forestry Futures' yn ogystal ag hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyfforddiant cymorth cyntaf yn yr awyr agored
- Contract 2 mlynedd
- Parhad posib a dilyniant gydag elusen ddwyieithog flaengar sy'n tyfu - yn y rownd derfynol ar gyfer gwobr elusennol orau yn ddiweddar (Rural Business Awards Wales & NI 2018, Federation of Small Businesses - Community business of the year 2019, Powys Business Awards 2019 Social Enterprise and Charity Category)
- Strwythur Sefydliadol Cadarnhaol, gyda thîm cyfeillgar a chefnogol.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD:

Mae'r cymwyseddau canlynol yn

HANFODOL:

- Y gallu i drefnu a chynllunio gwersi/gweithgareddau a rheoli amser yn effeithiol
- Y gallu i arwain grwpiau, ysbrydoli ymddiriedaeth a bod yn ymwybodol o les unigolion
- Profiad proffesiynol o reoli coetir yn gynaliadwy, a'r buddion cymdeithasol o goedwigoedd
- Profiad o gyflwyno gweithgareddau i amryw o grwpiau
- Profiad o gadwraeth a gweithgareddau awyr agored
- Dealltwriaeth o ymarferion iechyd a diogelwch

DYMUNOL:

- Profiad o gyflwyno cyrsiau achrededig
- Y gallu i sgwrsio yn Gymraeg
- Profiad o gydlynu gwirfoddolwyr
- Tocyn llif gadwyn
- Profiad o gyflwyno gweithgareddau celf, natur, antur a bushcraft
- Sgiliau coedwigaeth

GWYBODAETH YCHWANEGOL:

CYFLOG:

Y cyflog yw £21,000 y pro rata (£9,800 y flwyddyn) ac yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

ORIAU:

Mae hwn yn swydd ran-amser 17.5 awr yr wythnos. Mae'n bosib trefnu oriau gweithio hyblyg. Os gofynnir i chi weithio ar ddiwrnod ychwanegol nad sy'n ddiwrnod gwaith arferol, gellir trefnu amser i ffwrdd yn lle. Gall yr oriau hyn gynyddu dros amser.

GWYLIAU BLYNYDDOL:

Bydd gan ddeliad y swydd 13 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn gan gynnwys hawl i wyliau banc.



CYFNOD PRAWF:

Bydd cyfnod prawf o 6 mis, gan orffen mewn cyfarfod gyda'r Cydlynnydd Sirol ac aelod o'r tîm rheoli i sicrhau bod deiliad y swydd yn addas ar gyfer y swydd ac wedi setlo yn y swydd.

LLEOLIAD:

Bydd y gwaith wedi'i leoli mewn safleoedd o amgylch Cwm Elan.

TEITHIO A CHYNHALIAETH:

Ble gofynnir i staff teithio ar y ffordd ar gyfer busnes swyddogol yn ychwanegol at y daith arferol i leoliadau gwaith, bydd darpariaeth o lwfans milltiroedd o 40c y filltir am ddefnydd o gerbyd personol.